# RHAGLITH

Y MAE i'r llyfr hwn, ysywaeth, hanes hir a helbulus. Mor bell yn ôl â 1937, dechreuodd Cyngor Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion ystyried cyhoeddi gëiriadur bywgraffyddol Cymreig. Gofynnwyd imi (fel un o aelodau'r Cyngor) ymgynghori â Syr John Edward Lloyd, ac yna baratoi memorandwm ar y mater yn ei holl agweddau. Rhoddwyd hwnnw o flaen y Cyngor ar 14 Ebrill 1938, ac wedi ei ystyried gan bwyllgor, cymeradwywyd ef ar 30 Mai. Gofynnwyd i Syr John fod yn Olygydd, a dymunodd yntau i minnau fod yn gynorthwywr iddo. Yna, yn ôl arfer y Gymdeithas, cyhoeddwyd y bwriad (gan Syr John ei hunan) mewn cyfarfod 'Cymmrodorol' yn ystod eisteddfod genedlaethol 1938—yng Nghaerdydd.

Ni fwriedid cychwyn ar baratoi'r geiriadur hyd oni cheid sicrwydd gweddol y byddai digon o arian i fynd â'r maen i'r wal. Yr oedd swm a ymddangosai ar y pryd yn rhesymol wedi ei gasglu, neu ei addo, erbyn haf 1939, ac aeth Syr John ati i symud ymlaen. Ond torrodd y rhyfel arnom, ac yn unfryd fe roddwyd y cynllun heibio. Waeth imi gyfaddef na chredai Syr John na minnau y clywem byth mwyach amdano, yn herwydd y cynnydd arswydus yng nghost argraffu a chyhoeddi. Ond ni fynnai'r Cyngor ddigalonni. Cyn gynted ag y canfuwyd argoelion fod terfyn ar y rhyfel yn nesáu, awdurdodwyd y Golygydd, tua diwedd 1943, i ailgydio yn y gwaith; gwelaf imi anfon i Ysgrifennydd y Cymmrodorion ar 3 Chwefror 1944 restr o'r enwau yr oeddem yn ystyried eu cynnwys dan y llythrennau A–D. Fe welir yn awr bod y gwaith, y bwriedid yn 1939 ei gwplâu mewn pum mlynedd, wedi cymryd naw mlynedd er amser ei wir gychwyn—ac mai'r argraffiad Cymraeg yn unig sydd yn awr o flaen y darllenydd.

Pan ailgychwynnwyd, yr oedd Syr John Lloyd bellach yn teimlo na allai ymgodymu â'r manion; dewisodd yn awr gael ei alw'n Olygydd Ymgynghorol, ac i minnau weithredu fel golygydd. Cyfarfyddem yn rheolaidd bob wythnos yn ei dŷ, i dynnu allan restrau o enwau ac i feddwl am ysgrifwyr. Yn y modd hwn, yr oeddem wedi cyrraedd y llythyren H, a minnau'n dechrau wynebu'r Jonesiaid, pan gymerwyd y Prif Olygydd yn ddifrifol wael. Bu ef farw ar 20 Mehefin 1947, yn 86 oed, wedi gwneuthur swm aruthrol o waith a ymestynnai dros 70 mlynedd; y mae'r rhestr noeth o'i lyfrau a'i bapurau, a gyhoeddwyd gan Fwrdd Gwybodau Celtaidd y Brifysgol fis Mai 1948, yn llenwi wyth tudalen helaeth—priodol yma yw cofio iddo gyfrannu 120 o ysgrifau i'r *Dictionary of National Biography*; priodol hefyd (a phrudd) yw nodi mai yn y llyfr presennol, dan y llythrennau A–D, y gwelir y gwaith diwethaf oll a ddaeth o'i law hyddysg a chelfydd ef. A gallaf

dystio na fodlonodd ef, yn yr ysgrifau hyn, ar wneuthur crynodebau o'r hyn a sgrifenasai gynt ar y gwŷr a goffeid—fe aeth yn ôl drachefn at y ffynonellau, a chynnwys pob gwybodaeth newydd; bu'n rhaid i lyfrgellydd Coleg y Gogledd chwanegu'r pethau diweddaraf at ein llyfrgell er mwyn i Syr John gael sicrwydd nad oedd unrhyw ddarganfyddiad wedi dianc rhagddo. Cyfrannodd Syr John inni 62 o ysgrifau.

Yn ystod eisteddfod genedlaethol 1947 (Bae Colwyn), cyfarfu rhai o hyrwyddwyr y geiriadur i ystyried y sefyllfa. Annoeth, fel y teimlem, fyddai dibynnu ar hap a damwain bywyd un gŵr, a hwnnw bellach yn heneiddio. Yr oedd y Llyfrgellydd Cenedlaethol eisoes ar bwyllgor y geiriadur, ac eisoes wedi rhoi help mawr i Syr John a minnau. Gofynnwyd yn awr iddo ef fod yn gydolygydd, a chydsyniodd, gyda chaniatâd parod Cyngor y Llyfrgell. Yr oedd manteision y trefniant hwn yn fawr ac yn amlwg: staff niferus o gynorthwywyr y gellid tynnu ar eu gwybodaeth, aparâtws cyflawn o lyfrau a dogfennau wrth benelin y cydolygydd, profiad o argraffu ac o ddelio ag argraffwyr. A pheth arall: peirianwaith, a swyddfa. Teg yw dweud fod Syr John a minnau eisoes wedi ein hawdurdodi i gyflogi help ysgrifenyddol, er nad oeddem hyd yn hynny wedi cyflogi neb. Ond yn awr, symudwyd oddi ar f'ysgwyddau bob cyfrifoldeb ariannol a'r holl drafferth o edrych bod yr ysgrifau'n cael eu dyblygu a'u cadw mewn trefn fel y gellid eu golygu'n hwylus. Wrth sôn am y materion hyn, ni ddylwn—ac yn wir ni allwn—osgoi enwi Miss M. Beatrice Davies, ysgrifennydd y Llyfrgellydd Cenedlaethol. Yn nes ymlaen, yr oedd ei help amhrisiadwy i'r geiriadur i gael ei gydnabod yn swyddogol gan ei phenodi'n Ysgrifennydd ac Is-olygydd. Y mae fy nyled bersonol iddi'n fawr dros ben.

Gallesid disgwyl yr âi pethau yn eu blaenau'n hwylus ar ôl yr atgyfnerthiad hwn. Nid felly y bu. Er mwyn imi gael hamdden i wneud darn arall o waith dros y Gymdeithas, ar achlysur ei deucanmlwyddiant, esgusodwyd fi am dymor rhag ymboeni â gwaith dydd-i-ddydd y geiriadur. Hynny yw, fe daflwyd yr holl waith, am wythnosau lawer, ar ysgwyddau fy nghydolygydd—y gwaith trwm o olygu'r sgriptiau, a'r gofal am y proflenni (oblegid erbyn hyn yr oeddem wedi dechrau argraffu) hyd at y llythyren K. Ymgymerodd Syr William hefyd â chyfieithu llawer o ysgrifau Saesneg meithion. Cyn gynted ag y rhyddhawyd fi i gymryd fy rhan o'r baich, gwelwyd fod iechyd Syr William yn dadfeilio, ar waethaf ei ymdrechion dewr ef i guddio'r ffaith—yn wir, i'w gwadu. Wedi dioddef afiechyd maith a phoenus, bu farw ar 11 Tachwedd 1952, yn un o'r ychydig enghreifftiau y gwn i amdanynt o ddyn wedi ei weithio ei hun i farwolaeth. Oblegid cydwybodolrwydd di-ildio oedd nodwedd amlycaf fy niweddar gyfaill. Sylwais droeon,

yn ystod ein cydweithio hir, fel y byddai ef yn poeni ac yn poeni uwchben ambell dro chwithig na pherai i'w gydolygydd mwy ysgafala ond codi ei ysgwyddau neu chwerthin. Fe allsai'n rhwydd fod wedi dweud wrthyf, ar fy nychweliad i'r gwaith, 'Wel, 'rwyf i wedi gwneud y gwaith hyd yn hyn—cariwch chi 'mlaen gyda'r gweddill, er mwyn imi gael gwella'n iawn'—a buaswn wedi gwneud hynny'n llawen. Eithr nid yn unig ni ddwedodd hynny, ond gwyddwn yn dda na buasai wiw imi gynnig—petasai gennyf galon i gynnig, oblegid gwyddwn fod y llyfr wedi mynd yn anwylbeth yn ei olwg. Mynnais, mae'n wir, olygu'r sgriptiau o L ymlaen; ond mynnai yntau gyd-ddarllen y proflenni. Gweithiodd hyd y diwedd—ond o raid, gorfu i'r gwaith gydgerdded â'i wendid ef; ac ar ysbeidiau o'i boen dirfawr yn 1952 ni allai Miss Davies na'r argraffwyr na minnau gyflymu. Teimlaf chwithdod mawr ar ôl Syr William; yr oeddem wedi tyfu'n gyfeillion, ac ni chododd y mymryn lleiaf o anghydfod rhyngom, ar hyd yr amser y buom yn cydweithio. Y mae yn y gyfrol hon 191 o ysgrifau ganddo.

Gorchwyl maith fyddai manylu yma ar y dull y dewiswyd y 'gwrthrychau' a oedd i'w cynnwys yn y llyfr—maith, a hefyd dianghenraid; oblegid myfi bob tro a gafodd y gair olaf ar ddewis neu wrthod unrhyw enw a awgrymid inni. Os gadawyd rhywun allan a ddylai (yn nhyb rhyw ddarllenydd) fod i mewn—neu'r fel arall—bwrier y cwbl o'r bai arnaf fi, ac nid ar Syr John Lloyd nac ar Syr William Davies. Ar y llaw arall, fe ddewiswyd llawer o'r *ysgrifwyr*, yn enwedig ar ôl y llythyren H, gan Syr William, ac nid ymyrrais erioed â'i ddewis; yr oedd ef wrth gwrs mewn llawer gwell cyfle na mi i wybod pwy oedd yn 'gweithio' ar Hwn-a-hwn ymysg y beirdd a llenorion a hynafiaethwyr llai adnabyddus. Efallai y dylwn yma ragflaenu beirniadaeth; y mae cryn hanner dwsin o lenorion mwyaf adnabyddus Cymru na welir eu henwau yn y rhestr o'r ysgrifwyr. Y rheswm yw iddynt orfod ymesgusodi yn herwydd afiechyd neu bwys gorchwylion eraill ar y pryd, er mawr ofid inni.

Gwaith anodd, ond hanfodol, gan gofio mai un gyfrol o ryw 1,000 tudalen a ganiateid inni, a hefyd bod y Cyngor wedi pwyso arnom i gynnwys cynifer fyth o enwau ag a fyddai'n bosibl, fu ceisio pennu *hyd* yr ysgrifau. Yr oedd un math o ysgrif na allai ond bod yn gymharol 'faith,' sef yr ysgrifau ar *deuluoedd*. Ar ddechrau cyntaf y gwaith, trawyd Syr John Lloyd a minnau gan bwysigrwydd teuluoedd yn hanes Cymru —y mae'r teulu'n fynych yn bwysicach na'r unigolion o'i fewn. Nid yn unig y teuluoedd tiriog mawrion y mae eu hanes yn benodau o hanes 'gwleidyddol' ein gwlad, ond yn od ddigon, y mae'r peth i'w ganfod, yng Nghymru, mewn dosbarthiadau cymdeithasol eraill—y mae 'llinachau,' er enghraifft, o weinidogion Ymneilltuol, ac o ddiwydianwyr. Wel, heblaw'r ysgrifau teuluol hyn, bwriadai Syr John gynnwys rhyw

ugain neu ragor o ymdriniaethau gweddol lawn â chynifer o wir fawrion y genedl—Thomas Charles, dyweder, neu Owain Glyndŵr; fe welir eto olion o'r bwriad hwn yn rhannau cyntaf y llyfr, oblegid pan ddaeth yr ysgrifau hynny i law, ni fynnai Syr William na minnau eu tocio, gan fod yr ysgrifwyr wrth gwrs wedi cadw at yr amodau a bennwyd iddynt. Ond fe ddaeth newid gyda'r drefn newydd—newid y cefais fod Syr William yn hollol unfarn â mi yn ei gylch. Prin, fe gredem, y byddai myfyrwyr na darllenwyr eraill mewn unrhyw benbleth i ble i droi am ymdriniaethau llawnion â Llywelyn y Llyw Olaf neu Howel Harris neu 'S.R.' Eu gofuned hwy, wrth astudio hanes y gwŷr mawr hyn a'u tebyg, fyddai cael gwybod rhywbeth am y planedau *llai* a drôi o'u cwmpas ac a enwid mor fynych wrth sôn amdanynt. Mesurasom y gofod, felly, nid yn ôl 'pwysigrwydd' y dyn ond yn hytrach fel arall, gan ofyn i'n hysgrifwyr am adroddiadau cryno (mae'n wir), ond mor gyflawn ag a oedd yn ymarferol, ar y gwŷr *llai* amlwg. Nid oedd Syr John Lloyd ei hunan yn dymuno i'r llyfr gael ei enwi'n 'Eiriadur o Enwogion Cymru'—gwell oedd ganddo ef y gair 'hynod.' Ac os teimla rhyw ddarllenydd direidus ar ei galon alw'r gyfrol hon yn 'Eiriadur o Gymry Anadnabyddus,' ni chyll ei golygydd funud o gwsg. Ceisiais ofalu am y *lleiafrifoedd*—yr 'enwadau' crefyddol bychain, y llenorion dinod, ac yn gyffredinol, y math o ddyn y mae'n aml yn anodd iawn cael hyd i'w hanes. Cyfyngwyd ar nifer y gweinidogion (o bob eglwys ac enwad) o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg a gafodd sylw yn y llyfr, er mwyn rhoi rhagor o sylw i glerigwyr y tair canrif cyn hynny, i Biwritaniaid a Chrynwyr, i'r Hen Ymneilltuwyr cyn 1800, i Fethodistiaid y cyfnod cyn 1811. Nid oedd Syr William na minnau'n debyg o anghofio ein cymheiriaid—yr haneswyr a'r hynafiaethwyr, yr ysgolheigion a'r casglyddion llawysgrifau a'r llyfryddwyr. Cofiwyd am wyddonwyr a meddygon, am ddyfeiswyr a diwydianwyr; ni buom yn gwbl esgeulus o'r cae pêl droed nac o'r 'cylch paffio'; ac yn sicr, a ni'r Cymry'n genedl mor ddireidus, ni ellid osgoi rhoi ambell frawd i mewn yn unig ac yn unswydd am ei fod yn 'odiach' na'r cyffredin.

Beth a olyga'r gair 'Cymreig' yn ein teitl? Wrth gwrs, Cymry glân gloyw, a aned ac a fu fyw yng Nghymru ei hunan, ydyw'r rhan fwyaf o'r gwŷr a gofnodir yn y llyfr. Ond y mae llawer o Gymry na aned yng Nghymru, a llawer hefyd a aned ynddi ond a enillodd eu hamlygrwydd y tu allan iddi. Yn hyn o beth, gosododd Syr John Lloyd y ddeddf i lawr yn bendant, a chadwodd ei olynwyr yn gaeth ati—pe na bai ond am y rheswm ymarferol ei bod hi'n rhaid tynnu llinell bendant er mwyn cadw'r llyfr o fewn terfynau. Wfftiai Syr John y disgrifiad mynych 'of Welsh descent'; ni fynnai gynnwys unrhyw 'Gymro' nad oedd prawf pendant iddo ef ei hun neu o leiaf un o'i rieni gael ei eni yng Nghymru—ni wnâi taid neu nain mo'r tro. Ymhellach: cyfarwyddodd yr ysgrifwyr,

wrth ddelio â Chymry sy'n enwocach yn Lloegr neu America nag yng Nghymru ei hunan, i egluro eu cyswllt â Chymru'n weddol fanwl, ond i gynilo ar y gweddill o'u hanes gan gyfeirio'r darllenydd at y *Dictionary of National Biography* neu gyfeirlyfr cyffelyb. Ac ar waethaf taer ymbiliau cyfaill brwd nad oes angen ei enwi—yn wir, ar waethaf peth amheuaeth ar ran fy nghydolygydd—caledais fy nghalon at Gymry America oni byddent wedi cyflawni gwasanaeth *i'r bywyd Cymraeg neu Gymreig yno*—nid gwneud ffortiwn.

Wedi dweud hyn, fodd bynnag, y mae'n rhaid dweud peth arall a all ymddangos yn hollol groes. Y mae yn y gyfrol ysgrifau ar gryn nifer o estroniaid diledryw, heb un dafn o 'waed Cymreig' yn eu cyfansoddiad. Eithr ystyrier hyn: mai geiriadur bywgraffyddol *yn ymwneud â hanes Cymru* ydyw'r llyfr. Bu llawer estron, ar hyd ein hanes, yn byw ac yn gweithio yng Nghymru, ym mhob gradd o gymdeithas ac ym mhob galwedigaeth, a gwnaeth llawer ohonynt gyfraniad mawr, neu ar y lleiaf wahaniaeth mawr, i fywyd y genedl; ffolineb dybryd fuasai tewi amdanynt. Tyfodd ambell un ohonynt, o ran hynny, yn Gymreigwyr ac yn llenorion Cymraeg. Ond hyd yn oed â chyfaddef nad oedd cryn nifer o'r gweddill yn seintiau, nac yn wladgarwyr Cymreig, ni ellir gwrthod iddynt eu lle yn hanes ein gwlad—arglwyddi Normanaidd pwerus, neu ddiwydianwyr Seisnig yn oes y Chwyldro Diwydiannol, neu wŷr fel Thomas Telford neu Thomas Burgess neu Stuart Rendel. Cwestiwn astrus yw hwnnw: pa un a newidiodd fwy ar hanes Cymru, ai Howel Harris (dyweder) ai Richard Crawshay (dyweder)? Cytunodd Syr William Davies â mi, hefyd, gan gofio y bydd y llyfr hwn yn rhan o aparâtws myfyrwyr, mai hwylus fyddai cynnwys ynddo haneswyr a hynafiaethwyr a wnaeth gyfraniadau pwysig i astudiaeth ein hanes a'n llenyddiaeth, serch mai Saeson yn byw y tu allan i Gymru oeddynt—am resymau ymarferol ymgadwasom at Brydain.

Wrth bennu rhychwant amseryddol y llyfr, ymwrthododd Syr John Lloyd â'r cyfnod chwedlonol neu hanner-chwedlonol a gynrychiolir mor helaeth yn ein hen eiriaduron, ac ni fynnai fynd ymhellach yn ôl na diwedd y cyfnod Rhufeinig. Bwriadem ar y cychwyn i'r llyfr ddyfod i lawr at flwyddyn ei gyhoeddi; ac yn wir fe sgrifennwyd, er enghraifft, ar David Lloyd George, a fu farw yn 1945, ac ar nifer o Gymry eraill cyfoes. Ond barnwyd yn y diwedd mai doethach fyddai sefyll ar 1940, a gadael 1941–50 i'r Atodiad y bwriada'r Cymmrodorion drefnu i'w gyhoeddi ymhellach ymlaen; felly 400–1940 yw maes y gyfrol hon. Dywedir imi fod un gŵr a fu farw ar ôl 1940 i mewn trwy ddamwain; ond nid yw anfarwoldeb annhymig hwnnw'n debyg o achosi cwyn. Ond sylwer na wnaethpwyd unrhyw ymdrech i *gyfartalu* rhwng y gwahanol gyfnodau o fewn y terfynau hynny. Yn wir, awgrymodd y Cyngor, ar y dechrau cyntaf, na ddylid manylu ormod ar yr Oesau

Canol, a chyfarwyddwyd ein hysgrifwyr i fodloni ar ofod byr—ond gan nodi'r newidiadau, a wnaethpwyd gan ymchwil ddiweddarach, ar waith ysgolheigion gwych fel T. F. Tout a J. E. Lloyd yn y *Dictionary of National Biography*; nodais eisoes y drafferth a gymerodd Syr John ei hunan yn y mater hwn. I'r gwrthwyneb, llawenydd mawr inni fu gallu rhoi i'r cyhoedd ffrwythau ymchwil newydd sbon i hanes yr unfed a'r ail ganrif ar bymtheg, cyfnodau nad yw eu hanes 'gwleidyddol' yng Nghymru wedi atynu sylw ysgolheigion hyd yn ddiweddar iawn. Gan wybod mai'r llyfr hwn, am gryn amser, fydd yr unig lyfr Cymraeg i droi iddo am y wybodaeth newydd hon, caniateais ofod helaeth i'r ysgrifwyr ar y ddwy ganrif a enwyd. Bu raid hefyd fod yn weddol garedig wrth yr ysgrifwyr ar yr hanner canrif sydd wedi dilyn cyhoeddi'r diweddaraf o'r hen eiriaduron.

Cyfrifir bod yn y gyfrol 3,394 o ysgrifau; o'r rhain, y mae 3,223 dan enwau personau unigol, a 171 yn ysgrifau ar deuluoedd. Ond yn aml, fe gynnwys yr ysgrifau 'personol' nodiadau fwy neu lai helaeth ar un neu fwy o blant (neu berthnasau eraill) y 'gwrthrych.' Trefnodd Mr. B. G. Owens o'r Llyfrgell Genedlaethol fynegai (a welir ar ddiwedd y gyfrol) i'r rhain, ac er iddo weithio ar linellau cynnil, h.y. gadael allan yn hytrach na rhoi i mewn, y mae rhyw 660 o enwau yn ei fynegai. Hynny yw, ni all y nifer o unigolion yr ymdrinir â hwy yn yr ysgrifau 'personol' fod ryw lawer dan y pedair mil. Ar ben hynny, o droi at yr ysgrifau 'teuluol' fe welir nad yw'r rheini odid fyth yn ymdrin, yn yr ystyr o ddweud mwy na rhestru enwau a dyddiadau moelion, â llai na thri o aelodau'r teulu, a bod y nifer sawl tro'n codi i ddeg neu fwy; gellir felly chwanegu amryw gannoedd at y pedair mil y soniwyd amdanynt uchod.

Wrth olygu, nid ymyrrwyd â *barn* yr ysgrifwyr. Pan fyddent wedi methu cael dyddiadau pendant (ac fe synnai'r darllenwyr mor anodd yn fynych yw cael hyd i'r rhain, hyd yn oed ar ôl Deddf Gofrestru 1836), aeth y golygyddion a'r Ysgrifennydd i chwilio amdanynt, gyda help adnoddau a swyddogion y Llyfrgell; yna, os ceid hyd iddynt, dodwyd hwy i mewn mewn cromfachau sgwâr. Ambell dro, hefyd, gwthiwyd i mewn ryw ffaith fechan a ymddangosai inni'n werth ei nodi—hithau mewn cromfachau sgwâr; ac felly hefyd gyda'r ychwanegiad at y rhestr o ffynonellau yn ateg iddi. Noder, mewn egwyddor, mai rhestrau o'r ffynonellau *a ddefnyddiodd yr ysgrifwyr eu hunain* ydyw'r rhestrau hyn; ni fwriwyd o gwbl nad oes ffynonellau heblaw'r rheini, ac nid amcanwyd chwaith at roi 'llyfryddiaeth.' Cymwynas fawr â golygyddion Atodiadau dyfodol fyddai anfon at Miss Davies unrhyw gywiriad yn y dyddiadau—fe all ddigwydd yn aml fod y wybodaeth (efallai ar ddamwain) ym meddiant rhyw ddarllenydd. Cawsom drafferth fawr gydag enwau lleoedd—sut i'w sillafu, sut i'w rhannu—ac nid ydym yn bwrw inni

lwyddo bob tro. A pharodd treigladau'r enwau hynny hefyd anawsterau inni, gan gofio bod llafar gwlad yn fynych yn eu hanwybyddu yn yr oes bresennol—ein rheol, yn fras, fu gadael enwau tyddynnod heb eu treiglo (e.e. 'yn Tynyffridd,' 'yn Caederwen'), ond treiglo enwau eraill ('yn Nolgellau,' 'ym Mhorthaethwy').

Ac yn od iawn, yng nghyfarfod diwethaf oll pwyllgor y geiriadur y cytunwyd ar ei *enw*—yr Athro T. H. Parry-Williams a roes inni'r enw *Y Bywgraffiadur Cymreig*.

Wrth ollwng y gwaith o'm llaw, dymunaf dalu diolch i'r ysgrifwyr am eu parodrwydd, i'n Hysgrifennydd (unwaith eto), i Mr. R. D. Griffith a fu'n fath o 'olygydd cerddorol,' i'r argraffwyr am eu caredigrwydd a'u hamynedd a'u medr, i swyddogion a chynorthwywyr y Llyfrgell Genedlaethol, ac i Gyngor ac Ysgrifennydd yr Anrhydeddus Gymdeithas am eu hewyllys da ac yn fwy fyth am fod mor hirymarhous.

R. T. JENKINS.

COLEG Y GOGLEDD,
BANGOR,
24 *Ionawr* 1953.